THE ROYAL MINT®
MUSEUM

REMEMBERING DECIMALISATION 1971 2021
WHAT'S THAT IN OLD MONEY?

# CYSTADLEUAETH STORI FER

## Gwybodaeth i athrawon

**Ym mis Chwefror 1971, cymerodd Brydain y cam hanesyddol o newid ei harian o bunnoedd, sylltau a cheiniogau i'r system arian degol sydd ohoni heddiw, gyda 100 ceiniog i bob punt.**

Effeithiodd y newid hwn, a adwaenir fel degoli arian, ar y genedl gyfan, gan ddod â phobl at ei gilydd wrth iddynt ddysgu meistroli'r arian newydd hwn. Roedd yn ddechrau hefyd ar bennod newydd yn hanes hir y Royal Mint, a symudodd i safle yn Ne Cymru er mwyn ymdopi â'r gofynion o wneud biliynau o ddarnau arian newydd.

Cwymp hanner canmlwyddiant Diwrnod y Degoli neu 'Ddiwrnod D' fel y daethpwyd i'w hadnabod, ym mis Chwefror 2021 ac fel rhan o ddathliadau'r pen-blwydd hwn, mae Amgueddfa'r Royal Mint yn cynnal cystadleuaeth stori fer sy'n agored i bob disgybl ysgol gynradd blwyddyn pump a chwech yng Nghymru.

Bydd y stori fuddugol yn cael ei dewis gan y beirniad gwadd a'r awdur plant enwog, Eloise Williams. Bydd y gwobrau'n cael eu dyfarnu i'r awdur buddugol ac i'w hysgol. Ewch i wefan Amgueddfa'r Royal Mint am gwestiynau cyffredin a gwybodaeth am ddegoli arian i helpu'ch disgyblion i gael ysbrydoliaeth ar gyfer eu straeon.

www.royalmintmuseum.org.uk

**Eloise Williams** yw Children's Laureate Wales 2019-2021.

Enillodd ei nofelau Gwobr Llyfr Pobl Ifanc y Flwyddyn 2017 y Wales Arts Review, Gwobrau Llyfrau YBB 2018, North East Book Awards 2019 ac fe'i rhoddwyd ar restr fer Gwobrau Tir na nOg yn 2018 a 2019.

*"Rydw i wrth fy modd o gael fy ngofyn i feirniadu'r gystadleuaeth ysbrydoledig hon. Tyfais i fyny gerllaw'r Royal Mint ac mae gennyf atgofion arbennig o Lantrisant.*

*Fel Children's Laureate Wales, rydw i'n gyffrous iawn i annog ysgrifennu creadigol ymhlith pobl ifanc ac edrychaf ymlaen at ddarllen y straeon."*



# CYSTADLEUAETH STORI FER

## I'r disgyblion

COFIO
BETH YW HWNNA MEWN HEN ARIAN?
1971 2021
DEGOLI ARIAN

Ysgrifennwch stori fer o ddim mwy na 500 gair a ysbrydolwyd gan Ddiwrnod y Degoli ym 1971 a'r newid i arian degol.

Mae gennych ryddid i feddwl am syniadau ar gyfer eich stori ond dyma rai syniadau a allai helpu i'ch ysbrydoli chi.

Petai darnau arian yn gallu siarad, beth fydden nhw'n ei ddweud wrthym?

Sut beth oedd y diwrnod degoli arian i bobl oedd yn defnyddio'r arian newydd am y tro cyntaf?

Dychmygwch eich bod chi'n ddarn arian degol sgleiniog a newydd. Pa fath o anturiaethau allech chi fod wedi'u cael ar ôl i chi adael y Royal Mint?

Pob lwc!

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw
**11 Rhagfyr 2020**

Gallwch anfon ceisiadau e-bost at
decimalisation@royalmint.com

Neu postiwch nhw at:
The Royal Mint Museum,
Llantrisant, Pontyclun,
Rhondda Cynon Taf, CF72 8YT

THE ROYAL MINT®
MUSEUM

Company registration number 07105875 | Charity number 1138877